# Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022

## 370- Beirniadaeth Newyddiaduraeth 16 – 21 oed

## Beirniad – Andrew Weeks a Gwenfair Griffith

Dyma fideo yn trafod pwnc pwysig yn ardal Crymych – coedwigo tir amaethyddol. Mae'n bwnc amserol iawn lle mae llawer o drafod wedi bod. Mae'r darn yn dechrau ar glip gyda lluniau hardd o'r tir-lun lleol. Mae'r arddull lleisio yn eisteddfodol, ond yn glir. Mae'r ymgeisydd wedi holi cynrychiolwyr o ddwy ochr y ddadl, sydd yn gret i'w weld. Mae'r darn felly yn cynnig balans, gan ei fod hefyd yn cynnwys safbwynt y llywodraeth. Mae'n amlwg bod gan yr ymgeisydd grebwyll newyddiadurol cryf. Mae hefyd yn arddangos dawn dweud drwy ddefnyddio ymadroddion ieithyddol hyfryd wrth ysgrifennu. Mae'r diweddglo yn reit farddonol hefyd, sydd yn eithaf dramatig ac o bosib yn dangos rhywfaint o emosiwn y gohebydd. Dyma ddarn da iawn o waith sy'n haeddu canmoliaeth.

1af - Fflur James
2il - Ifan Meredith
3ydd - Cara Medi Walters